

Cynllun Datblygu Lleol Conwy i'w Archwilio Gan y Cyhoedd 2007 – 2022 (Argraffiad Diwygiedig 2011)



PAPUR CEFNDIR 28 DIWYGIEDIG - CYFLWYNO

Yr Amgylchedd Hanesyddol

Awst 2012

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: www.conwy.gov.uk/cdll. Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Castle Street, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fyddech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575181 / 575124 / 575445 / 575447.

Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

CYNNWYS

	Tudalen
1. Cyd-destun Polisi	4
2. Cymeriad a Phensaerniaeth Bwrdeistref Sirol Conwy	6
3. Adeiladau Rhestredig.....	8
4. Ardaloedd Cadwraeth	10
5. Safle Treftadaeth y Byd Conwy.....	12
6. Parciau a Gerddi Hanesyddol.....	13
7. Datblygiad Galluogi.....	15
8. Adeiladau ac Adeileddau o Bwysigrwydd Lleol.....	17
9. Henebion Rhestredig a Safleoedd Archeolegol.....	19

1. **Cyd-destun Polisi**

1.1 Darperir rheolaeth cynllunio ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol drwy dair ffynhonnell o ofynion statudol:

1.2 **Deddfwriaeth Cynradd** - Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r tri darn hwn o ddeddfwriaeth yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer rheoli datblygiadau ac addasiadau sy'n effeithio ar adeiladau, gan gynnwys rhai rhestredig a rhai mewn ardaloedd cadwraeth, a'r fframwaith y caiff rheolaeth ei gynnal.

1.3 **Polisi Cenedlaethol** - Mae nifer o gylchlythyrau'r hen Swyddfa Gymreig yn rhoi manylion pellach ar weithrediad y ddeddfwriaeth. Dyma restr o'r cylchlythyrau:

- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol – Archeoleg – Mae'r cylchlythyr yn amlinellu cyngor ar ddeddfwriaeth a threfnau'n ymwneud â gweddillion archeolegol.
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol – Archaeoleg – Mae'r cylchlythyr yn amlinellu cyngor ar ddeddfwriaeth a threfnau'n ymwneud ag adeiladau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth.
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 1/98 Cyfarwyddyd Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru – Pwrpas y cylchlythyr hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar agweddau o gylchlythyr 61/96 yn dilyn y penderfyniad yn achos Shimizu (UK) Cyf v. Cyngor Dinas Westminster yn ymwneud â dymchwel mewn ardaloedd cadwraeth.
- Polisi Cynllunio Cymru (PPW) (2010) - Mae PPW yn cynnig arweiniad ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r meysydd canlynol yn destunau datganiadau polisi cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW) ac, o ganlyniad, ni ddylid eu hailadrodd fel polisi lleol yn y CDLI (mae'r paragraff PPW perthnasol wedi ei gynnwys mewn cromfachau):
 - Ariannu gwaith archeolegol (6.4.3)
 - Cadw adeiladau rhestredig a'r defnydd hyfyw gorau posibl (6.5.8)
 - Ardaloedd cadwraeth ac asesiadau (6.4.6);
 - Henebion a gweddillion archeolegol (6.5.1);
 - Ymchwiliad archeolegol cyn dechrau datblygu (6.5.3);

- Cynigion yn effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad (6.5.9);
- Caniatâd i ddymchwel adeilad rhestredig – amgylchiadau eithriadol/ defnyddio amodau (6.5.10)
- Ystyriaethau wrth roi caniatâd ardal gadwraeth (6.5.16 - 6.5.17);
- Hysbysebion mewn ardaloedd cadwraeth (6.5.19);
- Coed mewn ardaloedd cadwraeth (6.5.20);
- Safleoedd Treftadaeth y Byd (6.5.24);
- Effaith ar dirluniau, parciau neu erddi hanesyddol a'u lleoliadau fel ystyriaeth o bwys (6.5.25).
- Mae Egwyddorion Cadwraeth (2011) yn amlinellu bwriadau Cadw ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn modd cynaliadwy.

1.4 Nid oes felly rhaid cynnwys yr ystod holl-gynhwysfawr o bolisiâu ar yr amgylchedd hanesyddol yn y CDLI. Yn unol â'r PPW, dim ond mewn perthynas ag elfennau sy'n wahanol yn lleol mae angen polisi lleol. Mewn rhai achosion, yr arf mwyaf addas ar gyfer manylu fel hyn yw'r Canllawiau Cynllunio Ategol (SPG). Er hynny, byddai hyn yn dal yn golygu bod rhaid cynnwys y polisi perthnasol yn y CDLI ei hun, er mwyn i'r SPG ddeillio o'r polisi cynllunio lleol a fabwysiadwyd.

2. Cymeriad a Phensaernïaeth Bwrdeistref Sirol Conwy

- 2.1 Mae gan y rhan o ogledd-orllewin Cymru sydd o fewn Sir Conwy dreftadaeth hynod o gyfoethog ac amrywiol. Mae hyn yn amrywio o aneddiadau a chaerau o'r amseroedd cynharaf hyd at waith peirianyddol ar y twnnel dan Foryd Conwy ddiwedd yr 20fed ganrif.
- 2.2 Mae'r tirluniau sydd i'w cael yn y Sir hefyd yn amrywiol iawn. Mae'r llain arfordirol yn gartref i'r prif drefi - Bae Colwyn, Llandudno, Conwy, Abergele, Penmaenmawr a Llanfairfechan. I'r de o'r trefi hyn mae ardal wledig eang, sy'n cynnwys Dyffryn Conwy a brynau a mynyddoedd Eryri i'r gorllewin ac i'r dwyrain mae'r ardal o dir uchel eang sy'n cael ei adnabod yn gyffredinol fel Mynydd Hiraethog.
- 2.3 Mae ystod eang o adeileddau diddorol ac anarferol yn y Sir sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at ei chymeriad a'i hymddangosiad. Mae'r adeileddau hyn hefyd yn ein helpu i ddeall a gwerthfawrogi'r modd y datblygodd ac y tyfodd y Sir o'r cyfnod cynharaf hyd at heddiw.
- 2.4 Mae gwahaniaethau amlwg rhwng rhannau gorllewinol a dwyreiniol y Sir. Dyffryn Conwy yw'r ffin naturiol, sy'n gwahanu'r gorllewin mwy mynyddig a'r gweundiroedd tir uchel ysgafnach i'r dwyrain. Diffiniwyd y gwahaniaethau nid yn unig gan y dopograffeg, ond hefyd gan y gwahanol ddeunyddiau sydd ar gael ar gyfer adeiladu. Felly, mae llechi a gwenithfaen o fewn cyrraedd, er enghraifft, yn y gorllewin a siâl a cherrig brig calchfaen carbonifferaidd yn y dwyrain ac ar hyd yr arfordir.
- 2.5 Mae hanes datblygiad pensaernïol yr ardal yn adlewyrchu argaeledd deunyddiau lleol a thraddodiadau adeiladu. Mae Eryri wedi cael dylanwad cryf ar bensaernïaeth ardaloedd mewndirol Dyffryn Conwy fel y byddai disgwyl gan fod cerrig, pren a llechi ar gael yn rhwydd.
- 2.6 Ychydig o adeiladau a godwyd o ffrâm bren hanesyddol sy'n dal i sefyll gyda mwyafrif helaeth pensaernïaeth gynhenid y 18fed ganrif wedi'i adeiladu o rwbel cerrig ar hap. Cyflwynwyd briciau yn fwy cyffredinol i'r Sir yn y 18fed ganrif ond, o'i gymharu â gogledd ddwyrain Cymru, mae adeiladau bric o ddechrau'r 18fed ganrif yn eithaf prin gyda bric ond yn ennill ei blwyf mewn gwirionedd unwaith i fas

gynhyrchu a gwelliannau cludiant y bedwaredd ganrif ar bymtheg ganiatáu i ddefnydd eang gael ei wneud o'r deunydd. Parhaodd cerrig i fod yn ddeunydd adeiladu a ffafriwyd ar gyfer nifer o adeiladau Dinesig a Masnachol fel banciau a oedd yn dymuno cyfleu statws uwch neu gymeriad mawreddog.

- 2.7 Disodlwyd adeiladau carreg gan adeiladau brics a llechi wrth i ganolfannau masnachol, trefi glan y môr a hyd yn oed y pentrefi ehangu yn y 19eg ganrif. I gyd-fynd â'r defnydd o friciau fel deunydd adeiladu unlliw, neu aml-liwiog, daeth manylion terracota a gwaith haearn. Cafodd llawer o ehangiad yr aneddiadau arfordirol ym Mae Colwyn a rhannau o Llandudno a Phenmaenmawr ei adeiladu o frics wyneb wedi'u cywasgu nodweddiadol, a gynhyrchwyd yn y rhanbarth. Creodd penseiri nodweddion fel tyrau i dynnu sylw at safleoedd pwysig fel corneli yn y cynlluniau i ehangu'r trefi.
- 2.8 Dylanwadwyd yn fawr ar bensaernïaeth fodern yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif gan arddulliau hanesyddol a gwaith penseiri nodedig lleol.
- 2.9 Er enghraifft sefydlodd Herbert North thema Celf a Chrefft, Gwladaidd lleol hawdd ei adnabod drwy ddefnyddio llechi carreg gyda chymeriad cryf a waliau plastr garw neu gerrig bwrw e.e. Llanfairfechan.
- 2.10 Mae dylanwad yr arddull Clasurold hefyd i'w weld mewn rhannau o, er enghraifft, Llandudno a Phenmaenmawr, lle defnyddir stwco addurnol i greu delwedd fawreddog a chain. Mae pensaernïaeth fodernaidd gan ddefnyddio paneli drychiad gwyn amlwg a ffenestri llorweddol wedi'i fasgynhyrchu'n sefyll allan ond ychydig ohonynt sydd wedi goroesi heb eu haddasu. Mae gwaith haearn, nodwedd yr oes Fictoraidd yn dal yn amlwg, ac mae'n cael ei ddefnyddio'n bennaf fel addurniad neu i greu nodweddion sy'n sefyll allan yn Llandudno a Bae Colwyn - lle'r oedd canopiâu yn darparu cysgod/gorchudd a groesawyd. Nid yw adeiladau o haenau metel fel gorsafoedd cenhadol, eglwysi ac adeiladau amaethyddol wedi goroesi'n dda ond bellach mae'r adeileddau sy'n weddill yn sefyll allan fel adeiladau cymharol brin a nodedig.

3. Adeiladau Rhestredig

3.1 Mae 1733 o adeiladau/adeileddau rhestredig yn y Fwrdeistref Sirol ac mae nifer o faterion perthnasol yn wynebu'r rhain, ac maent wedi'u rhestru isod:

- Ar hyn o bryd 89 adeilad rhestredig ar y gofrestr “Mewn Perygl” yng Nghonwy Mae'r angen i ddatblygu strategaeth i ddelio â phroblem adeiladau rhestredig sydd mewn perygl o gael eu hesgeuluso a dirywio wedi'i nodi'n flaenoriaeth yng Nghonwy. Mae Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar hyn o bryd yn cael ei datblygu i ddarparu agwedd gyson a systematig tuag at adnabod a chymryd camau i ddelio ag adeiladau rhestredig sydd wedi peidio cael eu defnyddio neu wedi dirywio, a gyfeirir atynt yn aml fel “Adeiladau Mewn Perygl” (BAR). Pwrpas cofrestr BAR yw canfod adeiladau lle mae perygl o golli ffabrig hanesyddol neu bensaernïol o bwys (adeilad neu fanylion) gyda'r bwriad o atal y golled honno.
- Mae'r agwedd gyffredinol y Cyngor tuag at ddiogelu adeiladau mewn perygl yn ymatebol yn bennaf. Prif ganlyniad y strategaeth hon yw sicrhau newid agwedd er mwyn rhoi'r pwyslais ar weithredu'n rhagweithiol ac ataliaeth
- Er mwyn sicrhau canlyniadau rhesymol mae angen mabwysiadu polisi monitro cadarn sy'n golygu bod angen targedu arian ynghyd ag adnoddau staffio.
- Nod y strategaeth hon yw cynhyrchu agwedd strwythuredig barhaus 3 blynedd o hyd i ddelio ag adeiladau mewn perygl yng Nghonwy gyda'r nod o ostwng y nifer o adeiladau ar y gofrestr o:
 - 2- ym mlwyddyn 1
 - 4- ym mlwyddyn 2
 - 6- ym mlwyddyn 3
- Cynhaliodd Scott Handley arolwg o adeiladau rhestredig yn 2005/6. Efallai bod cyflwr yr adeiladau a restrwyd fel rhai oedd mewn perygl wedi newid ers hynny a bod rhai eraill yn fwy amlwg oherwydd pwysau gan y cyhoedd. Bydd y rhestr “Mewn Perygl” yn darparu sail ar gyfer llunio cynllun gweithredu. Rhoddir blaenoriaeth i adeiladau yn seiliedig ar y drefn y gellir cymryd camau effeithiol a graddau'r camau sydd angen. Rhoddir ystyriaeth i sgoriau risg, graddfa'r adeilad, graddau'r dirywiad, cynlluniau a fydd yn sicrhau budd cymunedol, lleoliad, anheddau gwag mewn ardaloedd a dargedwyd ar gyfer adnewyddu, pwysigrwydd yr eiddo a'i gyfraniad at y drefwedd a pha mor rhwydd y gellir sicrhau canlyniad positif.

- Yn yr ardal arfordirol, ac os yw adfywio gwledig drwy aildddefnyddio ar gyfer masnach neu dwristiaeth yn briodol, gall adeiladau hanesyddol gynyddu hyfywedd economaidd a gwneud ardal yn fwy deniadol fel cyrchfan i dwristiaid.
- Dylid archwilio newidiadau i ddefnydd sy'n cael effaith niweidiol ar ffabrig a nodweddion adeiladau rhestredig ac yn cael effaith gyfyngol ar yr adeilad penodol, neu ei leoliad yn y tymor hirach, yn ofalus i sicrhau nad oes unrhyw ddewisiadau eraill ar gael a fyddai'n caniatáu cadw at y defnydd y dyluniwyd yr adeilad ar ei gyfer yn wreiddiol i barhau, neu ddefnyddiau eraill a fyddai'n cadw ei gymeriad a'i diddordeb arbennig.
- Dylid rhoi pwyslais sylweddol ar y nod o gynnal adeiladau rhestredig a'u lleoliadau pan fod cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni amgen a mesurau effeithlonrwydd ynni'n cael eu cyflwyno ar gyfer adeiladau penodol. Gall y mesurau hyn niweidio diddordeb a chymeriad hanesyddol a phensaernïol arbennig yr adeilad rhestredig ac mae angen eu hystyried yn ofalus.
- Bydd angen rhoi sylw arbennig i reoliadau eraill fel Rheoliadau Adeiladu a darpariaethau DAA er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau'n cynnal cymeriad yr adeilad rhestredig.
- Gall galluogi datblygiad fod yn un ffordd o sicrhau dyfodol adeiladau rhestredig lle na fu mesurau eraill yn llwyddiannus. Archwilir hyn yn fwy manwl yn adran 7 y papur cefndir hwn.

4. Ardaloedd Cadwraeth

4.1 Ar hyn o bryd, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 25 ardal gadwraeth ddynodedig:

- Ardal Gadwraeth Canol Tref Abergele
- Ardal Gadwraeth Betws-yn-Rhos
- Ardal Gadwraeth Cerrigydrudion
- Ardal Gadwraeth Tref Bae Colwyn
- Ardal Gadwraeth Conwy
- Ardal Gadwraeth Gwytherin
- Ardal Gadwraeth Canol Tref a Glan y Môr Llandudno
- Ardal Gadwraeth Llanelian-yn-Rhos
- Ardal Gadwraeth Canol Tref Llanfairfechan
- Ardal Gadwraeth Llanfairtalhaiarn
- Ardal Gadwraeth Llangernyw
- Ardal Gadwraeth Llangwm
- Ardal Gadwraeth Canol Tref Llanrwst
- Ardal Gadwraeth Llansannan
- Ardal Gadwraeth Hen Golwyn
- Ardal Gadwraeth Penmaenmawr (Penmaenan)
- Ardal Gadwraeth Penmaenmawr (Pen-y-Cae)
- Ardal Gadwraeth Penmaenmawr (St David's Road)
- Ardal Gadwraeth Penmaenmawr (Bythynnod Bell)
- Ardal Gadwraeth Canol Tref Penmaenmawr
- Ardal Gadwraeth Pentrefoelas
- Ardal Gadwraeth Pwll Crochan
- Ardal Gadwraeth Llandrillo-yn-Rhos
- Ardal Gadwraeth San Siôr
- Ardal Gadwraeth The Close

4.2 Mae rhai o'r ardaloedd cadwraeth hyn neu rannau sylweddol ohonynt yn cynnwys nodweddion hanesyddol dilys da sy'n goroesi ac yn dal i wneud cyfraniad sylweddol at gymeriad unigryw ac arbennig yr ardal. Mewn achosion o'r fath, dylai pwyslais polisïau a chynigion fod ar gadw eu cymeriad a'u nodweddion arbennig presennol gan hefyd sicrhau gwelliant i'w cymeriad arbennig lle bod hynny'n bosibl.

- 4.3 I'r gwrthwyneb, mae cymeriad rhai ardaloedd cadwraeth wedi diraddio oherwydd newidiadau amhriodol ar raddfa fechan neu eang i nodweddion allanol adeiladau, neu ddatblygiadau newydd graddfa uwch nad ydynt yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal. Os yw hyn yn wir, dylai'r polisïau a'r cynigion roi pwyslais ar wella'r ardal drwy ailosod nodweddion hanesyddol a gollwyd, delio ag achosion o dorri rheolau cynllunio a gwella/ disodli achosion o ddatblygiad hanesyddol amhriodol drwy gael adeiladau/ estyniadau mwy cydnaws.
- 4.4 Yn aml mae ardaloedd cadwraeth yn cael eu camddeall neu wedi'u hegluro i breswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr. Mae angen dadansoddi cymeriad arbennig ardaloedd unigol a ffurfio cynigion er mwyn rheoli newid i'r dyfodol gyda'r bwriad o gadw neu wella'r ardaloedd hyn.
- 4.5 Bydd cynigion ardaloedd cadwraeth a fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod y cynllun yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau rheoli a deilwrwyd ar gyfer nodweddion unigol pob ardal ddynodedig. Amlinellir rhai themâu allweddol isod:
- Mesurau diogelwch mewn ardaloedd masnachol/adwerthu
 - Blaen siopau mewn ardaloedd adwerthu
 - Hysbysebion mewn ardaloedd masnachol/adwerthu
 - Defnyddiau hanesyddol mewn ardaloedd masnachol/adwerthu a phreswyl
 - Rheolaeth traffig a dyluniad priffyrdd
 - Nodweddion strydwedd
 - Mân ddatblygiadau mewn ardaloedd preswyl
 - Datblygiad ychwanegol/ mewnlenni mewn ardaloedd preswyl
 - Rheoli hawliau datblygiadau a ganiateir mewn ardaloedd preswyl
 - Mesurau effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni mewn ardaloedd cadwraeth
 - Diogelu lleoliadau ardaloedd cadwraeth.
- 4.6 Yn ogystal â chynhyrchu Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth, bydd SPGs yn cael eu creu ar gyfer pynciau penodol sy'n effeithio ar nifer eang o ardaloedd cadwraeth, er enghraifft, gosod UPVC, mesurau diogelwch blaen siop priodol etc.

5. Safle Treftadaeth y Byd Conwy

- 5.1 Mae ardal gadwraeth Conwy'n cynnwys y castell a waliau'r dref o'r drydedd ganrif ar ddeg a ddynodwyd yn safle Treftadaeth y Byd. Mae'r dynodiad hwn yn cynyddu pwysigrwydd yr ardal gadwraeth hon. Mae'r dref a'i adeileddau amddiffynnol canol oesol yn rai o ddiddordeb eithriadol ac mae angen cynigion rheoli penodol wedi'u teilwra i ddiogelu ffabrig a'r lleoliad uniongyrchol ac ehangach.
- 5.2 Mae UNESCO'n gorchymyn bod angen paratoi Cynllun Rheoli i arwain datblygiad yn y Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n cynnwys cestyll Edward 1 a waliau Conwy, Caernarfon, Harlech a Biwmares. Paratowyd Cynllun Rheoli drafft sy'n cynnwys parth clustogi pendant er mwyn diogelu lleoliad safle Treftadaeth y Byd Conwy. (Ewch i www.conwy.gov.uk/doc.asp?cat=2433&doc=1224 i weld y Cynllun Rheoli)
- 5.3 Mae pwysigrwydd hanfodol y bensaernïaeth filwrol ganoloesol a gweithredoedd peirianyddol diweddarach yn gosod cyfyngiadau ychwanegol ar yr ardal gadwraeth a'i lleoliad. Rhaid ystyried y ffactorau hyn wrth i'r Cyngor adolygu'r ardal gadwraeth hon. Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio sicrhau fod adeileddau hanesyddol sydd wedi goroesi yn cael eu cynnal a bod cymeriad y dref hanesyddol a'i lleoliad ehangach yn cael ei gwella a'i diogelu os yw'r cyfle'n codi. Mae dynodiad ychwanegol Safle Treftadaeth y Byd Conwy yn cyflwyno agweddau pellach i'w hystyried, gwerthuso a'u rheoli os ydym am gyflawni'r amcanion rheoli cyffredinol. Mae'r agweddau a werthuswyd yn cynnwys:
1. Dynodi golygfannau cynradd ac eilradd o'r Castell a'r dref (rhai sy'n wynebu i mewn ac allan).
 2. Diffiniad o barthau clustogi ac ardaloedd ehangach o leoliad tirwedd ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd. Bydd golygfannau pell yn cael eu cynnwys yn yr ystyriaethau hyn.
 3. Rhaid i'r gwaith strydwedd a gweithiau trefol eraill adlewyrchu cymeriad hanesyddol ac ymddangosiad unigryw rhagorol Conwy. Rhaid integreiddio'r gwaith o wella adeiladau, gofodau a strydwedd yn y Cynllun Rheoli Cadwraeth i sicrhau fod cymeriad cyffredinol y dref yn adlewyrchu pwysigrwydd hanesyddol Conwy fel cyrchfan fasnachol, breswyl ac i ymwelwyr.

6. Parciau a Gerddi Hanesyddol

- 6.1 Nid yw cynnwys parciau a gerddi ar Gofrestr Cadw/ICOMOS yn trosglwyddo unrhyw reolaeth statudol. Ni ddylai datblygiadau newydd bwriedig o fewn terfynau neu fewn y lleoliadau a ddiffinnir niweidio cymeriad arbennig y tirluniau, parciau a'r gerddi. Dylid gwerthuso cynigion am ddatblygiadau galluogi o fewn tirluniau, parciau a gerddi hanesyddol i sicrhau bod yr asedau hyn yn cael eu diogelu'n briodol. Gellir dod o hyd i wybodaeth gefndir bellach o fewn y Cofrestr Tirluniau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru.

Tirluniau

Dyffryn Conwy Isaf

Creuddyn a Chonwy

Gogledd Arllechwedd (yn croesi ffin Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA)

Mynydd Hiraethog (yn croesi ffin LPA)

Parciau a Gerddi

Y Fach

Gerddi Haulfre (Sunny Hill)

Neuadd Benarth

Bryn y Neuadd

Wern Isaf (Rosebriars)

Plas Madoc

Gwydir

Hafodunos

Voelas

Garthewin

Parc Cinmel

Coed Coch

Castell Gwrych

Plas Uchaf

Plas yn Llan

Bodnant

Oak Bank/Melin Bulkeley

Neuadd Caer Rhun

Gloddaeth (Coleg Dewi Sant)

Bodysgallen

Bryn Eisteddfod

Bae Colwyn - Cotswold

Tŷ Condober

Bae Colwyn – The Flagstaff

Hendre

7. Datblygiad Galluogi

7.1 Nid yw Datblygiad Galluogi yn derm statudol, ond cafodd ei gadarnhau'n arf cynllunio dilys yn 1988 pan gefnogodd y Llys Apêl, yn *R v. Cyngor Dinas Westminster ex parte Monahan*, ddilysrwydd caniatâd cynllunio i awdurdodi datblygiad swyddfeydd, a oedd yn groes i'r cynllun datblygu, ar y sail y byddai'n darparu arian i wella'r Tŷ Opera Brenhinol, Covent Garden, na fyddai modd eu cael fel arall. (English Heritage, 2008)

7.2 Fel rheol byddai Datblygiad Galluogi yn annerbyniol o safbwynt cynllunio ond mae ei angen i ddod a budd i'r amgylchedd hanesyddol na fyddai modd ei gyflawni fel arall. Yn dechnegol, 'dewis olaf' yw Datblygiad Galluogi, y dylid ei ystyried os nad oes unrhyw ddulliau eraill o ddiogelu dyfodol tymor hir ased treftadaeth.

7.3 Gellir defnyddio Datblygiad Galluogi fel dull o ddiogelu adeiladau rhestredig a allai fynd yn groes i bolisiâu cynlluniau neu egwyddorion cadwraeth cadarn ac maent yn aml yn cael eu cynnig fel mesurau a fydd yn caniatáu cynnal neu ddiogelu adeilad rhestredig rhag adfeilio ac/neu beidio cael ei ddefnyddio. Mae'r adeiladau rhestredig hyn yn aml yn wag, nid ydynt yn cael eu defnyddio ac mae ardaloedd mawr o dir o'u hamgylch, gan gynnwys parc a gerddi neu dirluniau sydd o ddiddordeb arbennig ynddynt ei hunain. Mae angen cymryd gofal i sicrhau bod y datblygiad bwriedig:

1. Yn un sydd ei angen.
2. Nad yw'n difrodi'r ased mae'n ceisio ei gynorthwyo.
3. Yn gysylltiedig â chynorthwyo'r adeilad rhestredig.
4. Yn un o raddfa gymesur.

7.4 Y Cysylltiad Rhwng Adeiladau Mewn Perygl â Datblygiad Galluogi

Os mai Datblygiad Galluogi yw'r unig ffordd o sicrhau dyfodol tymor hir adeilad mewn perygl, rhaid cyflwyno meini prawf wedi'u hystyried yn ofalus i arwain y datblygiad.

7.5 Argymhellir felly fod polisi ar Datblygiad Galluogi yn cael ei gynnwys yn y CDLI i arwain cynigion o'r fath. Mae meini prawf a gynhyrchwyd gan Cadw (Egwyddorion Cadwraeth 2011) wedi'u hymgorffori ym mholisi'r CDLI.

7.6 Yn ogystal â'r meini prawf polisi, argymhellir fod briffiau cynllunio'n cael eu cynhyrchu i werthuso pob cais yn ôl eu rhinweddau unigol.

8. Adeiladau ac Adeileddau o Bwysigrwydd Lleol

8.1 Mae gan Gonwy amgylchedd adeiledig hanesyddol gyfoethog ac amrywiol. Mae nifer o adeiladau ac adeileddau (c1700) yn manteisio ar y sicrwydd o gael statws rhestredig, er hynny nid yw nifer sylweddol o adeiladau ac adeileddau o bwysigrwydd lleol yn derbyn unrhyw sicrwydd penodol o safbwynt cynllunio.

8.2 Rhestrir categorïau eang isod sy'n dangos bod gan y Sir dreftadaeth cyfoethog ac amrywiol. Nid yw treftadaeth y Sir wedi'i chyfyngu i ystod gyfyngedig o fathau o adeiladau.

8.3 Yn ogystal â'r categorïau eang a restrir isod, mae esiamplau da o waith penseiri uchel eu parch yn lleol ac yn rhanbarthol fel Sidney Colwyn Foulkes, Herbert North a John Douglas.

8.4 Mathau o Adeiladau

Dyma rai o'r mathau o adeiladau ac adeileddau a godwyd ers yr 16eg ganrif yn y Sir y dylid eu hasesu:-

- Eglwysi a Chapeli ac addoldai eraill, yn enwedig y Capeli Cymreig, sy'n goroesi mewn trefi ac ardaloedd cefn gwlad.
- Bythynnod, cartrefi bach a daliadaethau bychain ac adeiladau cysylltiedig.
- Cartrefi gwledig a'i ystadau cysylltiedig, ac adeiladau ystâd.
- Ystadau diweddarach (e.e. 19eg ganrif) a ffermydd model, bythynnod ac adeiladau o'r fath a gynlluniwyd.
- Adeiladau amaethyddol traddodiadol, naill ai'n unigol neu rai sy'n ffurfio grwpiau.
- Priffyrdd ac adeileddau cysylltiedig, yn enwedig ffordd Llundain - Caergybi Telford, gwelliannau'r 1930au i ffordd yr arfordir (twnneli a thraphontydd) a Thwannel Conwy yn yr 1990au.
- Rheilffyrdd, yn enwedig Stephenson: rheilffordd Caer – Caergybi a rheilffordd Dyffryn Conwy.
- Adeileddau yn gysylltiedig â chwareli a'r diwydiant cloddio, fel incleiniau, rheilffyrdd cul, cytiau, jetiau a chlodwyr.
- Adeileddau diwydiannol eraill fel y gamlas o hen waith Dolgarrog.
- Adeileddau'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau fel gorsafoedd pwmpio.

- Tai a filas o ganol diwedd yr 19eg ganrif, yn enwedig yn Llandudno a Bae Colwyn, gan arddangos esiamplau nodedig o ddatblygiad y trefi, ac estyniad Edwardaidd diweddarach a chyfnod rhwng y rhyfeloedd.
- Adeiladau cyhoeddus fel ysgolion, llyfrgelloedd, neuaddau tref, neuaddau pentref, theatrau a lleoliadau o'r fath.
- Esiamplau o adeiladau Celf a Chrefft a gwaith penseiri lleol nodedig.
- Adeileddau sy'n goroesi ers yr Ail Ryfel Byd fel caerau tanddaearol, lleoliadau gynnu, cysgodfannau cyrchoedd awyr (e.e. Ysgol Saethyddiaeth y Gogarth) a'r adeileddau ar y Gogarth a Thrwyn y Fuwch ac, yn gysylltiedig, y cofebion rhyfel.
- Adeileddau yn gysylltiedig â'r trefi glan y môr - standiau band, colonadau, cysgodfannau, ciosgau ac ati.
- Eraill/amrywiol fel coredu pysgod (e.e. Llandrillo-yn-Rhos) a'r hen geiau (e.e. Bae Penrhyn).
- Adeileddau gardd ar diroedd tai a sefydliadau mawr fel gasibos, tai haf, tai gwydr.
- Adeileddau unigryw e.e. yr obelisg.
- Gweithfannau fel esiamplau da o adeiladau ffatri, depos, gefeiliau, gweithdai.

8.5 CDLI8 – Cynhyrchwyd yr SPG 'Adeiladau ac Adeileddau o Bwysigrwydd Lleol' i egluro sut bydd y polisi CDLI yn cael ei weithredu mewn perthynas â chreu rhestr o adeiladau ac adeileddau o bwysigrwydd lleol.

9. Henebion Rhestredig a Safleoedd Archeolegol

- 9.1 Mae henebion rhestredig (SAMs) yn safleoedd archeolegol o bwys cenedlaethol sy'n cael eu diogelu dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979. Cedwir rhestr o'r rhain gan CADW. Effaith rhestru yw bod angen caniatâd henebion rhestredig yn ogystal â chaniatâd cynllunio ar gyfer cynigion i ddifrodi, dymchwel, tynnu i lawr, trwsio, addasu, ychwanegu at, gorlifo neu orchuddio SAMs,
- 9.2 Dylai datblygiad fod yn sensitif i gadwraeth olion archeolegol a dylai polisiâu cenedlaethol bwysleisio'r angen i werthuso safleoedd, eu cofnodi a diogelu'r rhai pwysicaf. Datgelodd ymgynghoriadau gydag Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd bod angen asesiadau neu werthusiadau archeolegol ar rai o'r dyraniadau strategol bwriedig cyn y gall unrhyw ddatblygiad ddigwydd. Caiff ymatebion fel y rhain i'r ymgynghoriadau eu hystyried wrth gynhyrchu briffiau datblygu ar gyfer y safleoedd hyn neu wrth asesu cynigion datblygwyr.
- 9.3 Gan fod SAMs yn cael eu diogelu y tu allan i'r system gynllunio, nid oes rheidrwydd i gynnwys diogelwch o'r fath yn y CDLI. Er hynny, mae henebion rhestredig ond yn gyfrifol am gyfran fechan o'r nifer llawn o safleoedd archeolegol a hanesyddol. Wrth ystyried cynigion ar safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u rhestru, bydd y Cyngor yn ymgynghori ag Ymddiriedolaethau Archeolegol Clwyd-Powys/Gwynedd ac yn ystyried diddordeb a phwysigrwydd y safleoedd a'u lleoliadau. Pan fydd angen, bydd y Cyngor yn gorchymyn fod safleoedd yn cael eu hasesu a'u gwerthuso yn gywir cyn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio. Gwrthodir caniatâd cynllunio os yw'r safle archeolegol o ddiddordeb digonol i gyfiawnhau ei ddiogelu rhag unrhyw aflonyddu. Gellir hefyd cynnal neu gofrestru safleoedd drwy ddefnyddio amodau cynllunio a chytundebau. Bydd SPG yn cael ei gynhyrchu i arwain cynigion datblygu ar y materion hyn.